**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2021/22 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2021/22<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addysg | 1,756,360 | 1,756,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Ysgolion | 4,235,000 | 4,235,000 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Amgylchedd | 2,824,963 | 2,787,463 | 37,500 | *1* | - | | Bu llithriad ar y cynllun *Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio.* |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 2,469,218 | 2,469,218 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Cyllid | 1,856,636 | 1,856,636 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Economi a Chymuned | 2,896,422 | 2,791,422 | 60,000 | *2* | 45,000 | *1* | Bu llithriad gyda 2 gynllun sef *Cysoni trefniadau ac adolygu ffioedd parcio* gwerth cyfanswm o £60k. Mae risg o wireddu gweddill yr arbedion sef £45k ar y cynllun *Sefydlu ffioedd parcio ar draeth Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ar draws traethau Gwynedd o £10 i £15.* |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 7,048,161 | 6,218,051 | 347,360 | *6* | 482,750 | *5* | Mae rhai risgiau o gyflawni arbedion 5 cynllun sef *Integreiddio a Thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn* gyda £210k o darged yn 2019/20 ac mae sawl ffactor yn cyfrannu at yr her barhaus o'i gyflawni, *Cydweithio â'r trydydd sector i gymryd drosodd y ddarpariaeth gofal dydd yng Nghricieth a Blaenau Ffestiniog* (£75k), *Adolygu pecynnau gofal anableddau corff gan gwrdd ag amcanion mewn ffordd amgen* (£100k), Adolygu'r trefniadau gweithredu o fewn yr Adran (£34k) ac *Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran* (£64k) ond mae'r Adran yn gweithio i symud ymlaen gyda rhain. Mae 6 cynllun pellach gwerth cyfanswm o dros £347k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithredu i symud rhain yn eu blaen; y 3 mwyaf yw *Adolygiad pecynnau Gofal Iechyd Parhaus* (£150k), *Ail strwythuro'r Gwasanaeth Busnes* (£49k) a *Gwell cydgordio gwasanaeth gyda'r Adran Plant a theuluoedd ar adeg oed trosglwyddo* (£60k). |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 2,318,908 | 2,318,908 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |

**ATODIAD 1**

## TROSOLWG CYNLLUNIAU ARBEDION 2015/16 I 2021/22 FESUL ADRAN

| Adran | Cyfanswm Arbedion 2015/16 i 2021/22<br>£ | Cynlluniau wedi eu gwireddu<br>£ | Wrthi'n gweithredu, ond wedi llithro<br>£ - *nifer* | | Cynlluniau sydd hefo rhai risgiau i gyflawni<br>£ - *nifer* | | Sylwadau'r Pennaeth Cyllid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 6,244,410 | 5,891,410 | 220,000 | *4* | 133,000 | *1* | Gyda'r cynllun Trefniadau Fflyd (£133k) bu oediad oherwydd gorfodaeth i ail agor trafodaethau gyda'r Undebau ynghyd â Covid. Mae'r cynllun yma bellach yn derbyn sylw gan obeithio symud yn ei flaen yn fuan. Mae 4 cynllun pellach gwerth cyfanswm o £220k wedi llithro ond mae'r Adran yn gweithio i symud rhain yn eu blaen, y cynlluniau mwyaf yw *Canolfannau Ailgylchu: codi ffi ar fasnachwyr* ac *ar waredu deunyddiau DIY* (£90k) a *Cynyddu ffioedd am gasglu gwastraff gan fusnesau* (£75k). |
| Ymgynghoriaeth | 602,670 | 602,670 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 403,240 | 389,440 | - | | 13,800 | *1* | Mae bellach yn amlwg na fydd a*rbedion yng nghyllideb y Crwner* gwerth £13.8k yn gwireddu, gyda trefniant ar y cyd rhwng Cynghorau Gwynedd a Môn am barhau. Trafodaethau mewnol yn mynd ymlaen ar hyn o bryd. |
| Tai ac Eiddo | 943,230 | 843,230 | - | | 100,000 | *1* | Mae risg o wireddu arbedion y cynllun *Lleihau dibyniaeth ar lety dros-dro trwy fuddsoddi mewn llety pwrpasol,* sydd gyda tharged o £100k. Ers cyflwyno'r cynllun yma, mae newidiadau pellgyrhaeddol wedi digwydd o fewn maes digartrefedd. Cyn 2020/21 polisi Llywodraeth Cymru oedd cartrefu yn ôl yr angen, ond ers y pandemig Covid newidiwyd y polisi fel bod Awdurdodau Lleol yn cartrefu pawb. Er bod Strategaeth Tai yn cynnig atebion yn y hirdymor, mae'r sefyllfa ariannol yn sgil digartrefedd yn y tymor byr yn heriol i'r Adran |
| **Is-gyfanswm** | **33,599,218** | **32,159,808** | **664,860** | *13* | **774,550** | *9* | |
| Arbedion Rheolaethol | 1,200,360 | 1,200,360 | - | | - | | Holl gynlluniau'r cyfnod wedi'u gwireddu. |
| **CYFANSWM** | **34,799,578** | **33,360,168** | **664,860** | *13* | **774,550** | *9* | **Yn nhermau ariannol (£), mae 96% o gynlluniau arbedion 2015/16 - 2021/22 wedi eu gwireddu.** |